Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

# Pwy sy'n dwad dros y bryn

Pwy sy'n dwad dros y bryn
Yn ddistaw ddistaw bach?
A'i farf yn llaes a'i wallt yn wyn
A rhywbeth yn ei sach.
A phwy sy'n eistedd ar y to
Ar ben y simne fawr?
Siôn Corn, Siôn Corn
Helo, Helo
Tyrd yma, tyrd i lawr.

# Dymunwn Nadolig Llawen

Dymunwn Nadolig Llawen
Dymunwn Nadolig Llawen
Dymunwn Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda.

# Plu Eira

Plu eira ydym ni,
yn disgyn ar bob tŷ.
Yn troi a throi a throi a throi
plu eira ydym ni.

Plant hapus ydym ni,
sy'n hoffi gweld y plu,
Yn troi a throi a throi a throi,
plant hapus ydym ni.

